# GRIFFITHS, WILLIAM (1777 - 1825), gweinidog Annibynnol ac athro

**Enw:** William Griffiths
**Dyddiad geni:** 1777
**Dyddiad marw:** 1825
**Rhiant:** John Griffiths
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog Annibynnol ac athro
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg
**Awdur:** John Dyfnallt Owen

Ganwyd yn Gland  r, Penfro, ail fab John Griffiths. Addysgwyd yn ysgol 'un Mr. Foyle,' ysgol ei dad, a Hwlffordd. Derbyniwyd ef i athrofa Wrecsam, 2 Chwefror 1795, a bu'n athro cynorthwyol yno yn ystod ei flwyddyn olaf. Ordeiniwyd ef yn gydweinidog â'i dad, 23 Mai 1803 (?). Daeth yn amlwg fel pregethwr yn Gymraeg a Saesneg. Dioddefodd oddi wrth anhwylder mawr yn 1809 a thrachefn yn 1824, a bu farw 5 Ionawr 1825. Ymddiddorai'n fawr mewn cyfansoddi a chyfieithu emynau; ceir amryw o'i eiddo yn *Y Caniedydd Cynulleidfaol Newydd*.

## Awdur

**Y Parchedig John Dyfnallt Owen**, (1873 - 1956)

## Ffynonellau

*Hanes ... y Parch. John Griffiths, Glandwr, ynghyd ag eiddo y Parch. W. Griffiths, ei fab* (1826)

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iii, 45-7, 51, 52-4

*Y Diwygiwr*, 1808

Walter J. Evans, NLW MS 10327B: Carmarthen Presbyterian College roll of students

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734624

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu